

Recriwtio Clercod i Gyrff Llywodraethu

**Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Awdurdod Lleol (GGYALI) am benodi clercod i gyrff
llywodraethu mewn nifer o ysgolion ar draws y rhanbarth**

Oes gennych chi ddiddordeb mewn sut mae gyrff llywodraethu'n cefnogi gwaith ysgolion?
Hoffech chi ennill incwm ychwanegol ar gyfer gweithio yn y prynhawn/gyda'r hwyr o'ch cartref eich
hun?

Hoffech chi ddatblygu eich sgiliau proffesiynol ac ychwanegu at eich CV?

Oes gennych chi'r gallu i wrando, gwneud nodiadau cyfarfod a dysgu sgiliau TG newydd?

Os felly, dyma gyfle cyffrous i chi gefnogi eich cymuned ysgol leol

Mae'r rôl yn cynnwys mynychu hyd at 6 chyfarfod corff llywodraethu'r flwyddyn fesul ysgol rydych
yn clerco ynddi. Gan ddibynnu ar ddewis yr ysgol, gall cyfarfodydd fod yn rhai wyneb yn wyneb, yn
rhithwir dros Microsoft Teams, neu'n gymysgedd o'r ddau fformat. Disgwylir y bydd clercod yn
mynychu cyfarfodydd ym mha fformat bynnag y mae'r ysgol yn ei ddewis. Rôl y clerc ym mhob
cyfarfod yw llunio cofnodion drafft o'r trafodaethau a gafwyd/penderfyniadau a wnaed, a darparu
arweiniad ar weithdrefnau lle y bo angen.

Telir £95 fesul cyfarfod.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol arnoch am y broses, oherwydd darperir hyfforddiant
llawn am ddim a bydd cymorth parhaus i'ch helpu gyda'ch gwaith.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd Cyrff Llywodraethu yn y prynhawn/gyda'r hwyr, felly mae modd
gwneud y swydd hon ynghyd ag ymrwymadau gwaith eraill.

Mae yna swyddi gwag ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn y pedwar awdurdod
lleol,

Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae croeso i siaradwyr Cymraeg

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn glerc i gorff llywodraethu, cysylltwch â Kim
Houghton (kim.houghton@sewaleseas.org.uk) am ragor o wybodaeth.